| | |
|---|---|
| Cyfarfod | Bwrdd y Cyngor |
| Dyddiad | 19 Chwefror 2008 |
| Adroddiad | Strategaeth Ariannol 2008/9 – 2010/11 |
| Pwrpas | Sefydlu strategaeth ariannol ar gyfer 2008/9 – 2010/11 ac argymell cyllideb a threth gyngor ar gyfer 2008/9. |
| Argymhelliad | Argymell lefel y Dreth Gyngor ar gyfer y Cyngor |
| Awdur | Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Strategol Cyfadran Adnoddau |
| Arweinydd Portffolio | Cynghorydd Peredur Jenkins |

1. Cyflwynir yr adroddiad amgaeedig i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror.

2. Mae'r adroddiad yn adnabod fod yna fwlch ariannol o £5.585m yn y gyllideb ar gyfer 2008/9 (gweler cymal 5.4) ac yn cadarnhau fod y sefyllfa ar gyfer 2009/10 a 2010/11 yn mynd i fod llawn mor dywyll (gweler rhan 6).

3. Yn amlwg bydd angen sefydlu strategaeth ar gyfer cau'r bwlch yma yn 2008/9 gan gofio'r hyn sydd o'n blaenau yn 2009/10 a 2010/11. Yr unig ddewis wrth gwrs yw lleihau gwariant neu gynyddu'r Dreth Gyngor.

4. Amlinellir y prif ddewisiadau ar gyfer gwneud hynny yn rhan 9 yr adroddiad.

5. Argymhellir dau brif ddewis ymarferol yng nghymalau 10.9 a 10.10.

6. Dylid tanlinellu'r hyn a nodir yng nghymal 9.4 yr adroddiad, sy'n tynnu sylw at yr angen am doriadau yn 2009/10 a 2010/11 fydd yn golygu y bydd cyflawni'r toriadau hynny lawer anoddach ac yn brathu mwy ac o'r herwydd, dylid ceisio cadw i'r isafswm posibl faint o'r rhestr toriadau £4m a ddefnyddir ar gyfer strategaeth ariannol 2008/9.

7. Adroddir ar ganlyniadau trafodaethau'r Pwyllgor Craffu ar lafar i'r Bwrdd.

---

**A. Barn yr Aelodau Lleol/Views of the Local Member:**

---

**B. Barn y Swyddogion Statudol/The View of the Statutory Officers:**

**1. Prif Weithredwr/Chief Executive:**

Mae aelodau'r Bwrdd yn fwy na chyfarwydd a'r sefyllfa yr ydym yn ei wynebu o ran setliadau cyson wael a'r angen i gyd-bwyso codiadau treth, arbedion a'r galwadau sylweddol ar wasanaethau ac asedau'r Cyngor. Tra bod y math o ddewisiadau allai fod ar gael yn niferus, mae adroddiad y Cyfarwyddwr yn eu crynhoi a rhaid i'r Bwrdd gynnig arweiniad pendant ar y mater. Wrth gwrs, bydd mewnbwn y Pwyllgor Craffu i'r penderfyniad hwnnw yn bwysig iawn ac adroddir ar eu hargymhelliad yn y cyfarfod.

*Members of the Board are more than conversant with the situation we face in terms of the consistently low settlements and the need to balance council tax increases, savings and substantial pressures on the Council's services and assets. Whilst the options available are numerous, the Director's report summarises these options and the Board will have to offer a firm lead on the issue. The Scrutiny Committee's input to this decision will of course be extremely importantand their recommendation will be reported at the meeting.*

**2. Swyddog Monitro/Monitoring Officer:**

Nodaf fod y Strategaeth yn cael sylw yn y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol. Mae'n bwysig felly bod y bwrdd yn ystyried unrhyw sylwadau cyn dod i benderfyniad

*I note that the strategy will receive attention at the Resources and Corporate Scrutiny Committee. It is important therefore that the Board considers any observations before coming to a decision.*

**3. Prif Swyddog Cyllid/Chief Finance Officer:**

Mae'r strategaeth ariannol a gyflwynwyd i'r aelodau ym Medi 2007, yn Rhagfyr 2007, ac rwan yn Chwefror 2008 wedi bod yn gyson wrth nodi'r arbedion ariannol sydd angen eu darganfod erbyn 2008/09 a'r tebygolrwydd o benderfyniadau cyllidebol anodd eto yn 2009/10 a 2010/11. Fel y mae rhan 6 o adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol – Adnoddau yn amlygu, bydd toriadau ariannol pellach yn hanfodol er mwyn mantoli cyllideb y Cyngor dros y blynyddoedd nesaf. Mae'r Cyngor wedi cymryd camau sylweddol i wireddu arbedion a thorri gwasanaethau, ond mae'r targedau am fod yn gynyddol heriol i'w cyflawni, sy'n cynyddu'r risg ariannol lefel uchel ac yn cyfiawnhau cario balansau cyffredinol.

Rydym wedi adolygu reserfau penodol a chymryd camau eraill er mwyn rhyddhau arian ar sail unwaith ac am byth eleni. Hefyd, mae'r strategaeth (paragraffau 7.8 – 8.4) yn bwriadu defnyddio elfen o'r balansau cyffredinol er mwyn cwrdd ag anghenion unwaith ac am byth, megis pontio arbedion hir-dymor a 'buddsoddi i arbed'. Cytunaf fod yr argymhelliad yn resymol, ac yn gadael lefel briodol o falansau ar gyfer ymdrin â risgiau gweddilliol. Mae'n hanfodol eleni fod y Cyngor yn ymlynu at ei egwyddor o beidio ariannu gwariant parhaol allan o falansau gellid ei gwario unwaith yn unig.

Gydag ymlyniad ein cyfrifwyr i drefniadau costio proffesiynol, parhad i weithredu ymarferion cyllidebu darbodus, ynghyd â mewnbwn priodol gan aelodau etholedig a rheolwyr gwasanaethau, rwy'n argyhoeddedig fod y gyllideb a argymhellir yn ystyrlon. Rydym wedi casglu'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn ag anghenion gwario 2008/09, er mwyn gosod cyllideb realistig ar sail amcangyfrifon priodol. Gyda'r angen i ddarganfod arbedion sylweddol, bu raid gwneud penderfyniadau dewr a caled parthed rhai amcangyfrifon, sy'n golygu y bydd risg mewn meysydd megis 'incwm llog ar falansau' (gweler rhan 4.7) a'r 'gyllideb wrth gefn' (gweler rhan 10.8). Fodd bynnag, gyda chefnogaeth i'r argymhellion gerbron, yn gyffredinol credaf y gallwn gadw rheolaeth dros gyllid Cyngor Gwynedd yn 2008/09, ac mewn amgylchiadau hynod heriol credaf fod y strategaeth ariannol yma'n parhau'n ddarbodus.

Wrth i'r strategaeth ariannol gymryd rhywfaint mwy o risg nac a fu mewn cyllidebau blynyddoedd blaenorol, rhaid i mi bwysleisio bydd yn bwysicach nac erioed i holl Wasanaethau'r Cyngor reoli eu gwariant yn ddisgybledig a byw o fewn cyfyngiadau eu cyllidebau yn 2008/09.

*The financial strategy presented to members in September 2007, in December 2007 and now in February 2008 has consistently noted the financial savings required to be found by 2008/09 and the likelihood of difficult budgetary decisions again in 2009/10 and 2010/11. As part 6 of the Strategic Director – Resources' report reveals, further financial cuts are essential in order to balance the Council's budget over the next few years. The Council has taken significant steps to realise savings and cut services, but the targets will be increasingly difficult to achieve, which increases the 'high level' financial risk and justifies carrying general balances.*

*We have reviewed specific reserves and taken other measures in order to release cash on a one-off basis this year. Also, the Strategy (paragraphs 7.8 – 8.4) intends to use an element of general balances in order to meet one-off requirements, such as bridging long-term savings schemes and 'invest to save'. I agree that this recommendation is reasonable, and would leave an appropriate level of balances in order to deal with residual risk. It is essential this year that the Council adheres to its principle of avoiding financing permanent expenditure out of balances which may be spent only once.*

*With our accountants' adherence to professional costing conventions, continued operation of prudent budgeting practices, alongside appropriate involvement of elected members and service managers, I am convinced that the budget recommended is sound. We have collected the latest information regarding spending needs for 2008/09, in order to set a realistic budget on the basis of proper estimates. With the need to identify substantial savings, it was necessary to make brave and difficult decisions on some estimates, meaning that there will be a risk in areas such as 'interest on balances' (see para. 4.7) and the 'contingency budget' (see para. 10.8). However, with support for the recommendations submitted, generally I believe that we will be able to keep control of Gwynedd Council's finances in 2008/09, and in particularly challenging circumstances that this financial strategy remains prudent.*

*As the financial strategy takes somewhat more risk than was taken in previous years' budgets, I must emphasize that it will be more important than ever for all the Council's Services to control their expenditure in a disciplined manner and to live within the limits of their budgets for 2008/09.*

PWYLLGOR: **CRAFFU ADNODDAU A CHORFFORAETHOL**

DYDDIAD: **14 CHWEFROR 2008**

TEITL YR ADRODDIAD: **STRATEGAETH ARIANNOL**

AWDUR YR ADRODDIAD: **CYFARWYDDWR STRATEGOL ADNODDAU**

ARWEINYDD PORTFFOLIO: **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS**

---

## 1 CEFNDIR

1.1 Yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2007 bu'r Bwrdd yn ystyried y sefyllfa amlinellol gyda'r strategaeth ariannol ar gyfer 2008/09 gan fabwysiadu argymhellion y pwyllgor yma y dylid taflunio effeithiau amrediad yn y Dreth Gyngor o rhwng 3% a 7% a llunio rhestr arbedion ar gyfer cyflawni'r fath amcan.

1.2 Nodwyd hefyd bryd hynny y dylid mabwysiadu'r egwyddorion canlynol ar gyfer dod a strategaeth ariannol ger bron ym mis Chwefror

- Y dylid herio'r bidiau am adnoddau ychwanegol yn ofalus gan geisio isafu'r symiau sydd eu hangen;
- Y dylid darparu ar gyfer ail flaenoriaethu rhywfaint o adnoddau ar gyfer cwrdd a blaenoriaethau'r Cyngor fel y'u hadnabyddir yn y Cynllun 3 Blynedd;
- Y dylid cychwyn symud adnoddau o fewn y gyllideb refeniw er mwyn medru atgyfnerthu'r gyllideb gyfalaf;
- Y dylid ystyried a oes yna gyfle i broffilio'r arbedion y bydd eu hangen dros gyfnod o dair blynedd

## 2. GWARIANT CYFALAF

2.1 Cyn ystyried sefyllfa ariannol refeniw y Cyngor am y blynyddoedd i ddod byddai'n briodol ail ymweld a'r sefyllfa gyfalaf yn gyntaf er mwyn gosod cyd destun i elfennau fydd yn cael ardrawiad ar y gyllideb refeniw.

2.2 Cyn y Nadolig fe gyflwynwyd Cynllun Rheoli Asedau drafft i'r Pwyllgor oedd yn awgrymu fod anghenion gwariant ar ein hadeiladau yn £136m tra mai ychydig dros £72m oedd ar gael i ddygymod a'r anghenion yma.

2.3 Bydd y gweithgor a ffurfiwyd gan y Pwyllgor i herio cynnwys y Cynllun Rheoli Asedau yn herio'r anghenion gwariant wrth gwrs ond doed a ddel, bydd angen cymeryd penderfyniadau anodd.

2.4 Mae'r ateb terfynol yn debygol o fod yn gyfuniad o gyfyngu ar yr anghenion gwario, gwaredu eiddo uwchben beth fydd eisoes wedi ei adnabod yn y Cynllun ac ychwanegu at yr adnoddau sydd ar gael drwy ddefnyddio'r Cod Benthyca darbodus.

2.5 Os am fenthyca mae angen y gyllideb refeniw i dalu am y costau benthyca ac ar gostau benthyca cyfredol, ac yn ddibynol ar natur yr ased, am bob £1m a fenthycir mae angen gosod cyllideb refeniw o £90,000 o'r neilltu.

2.6 Mae'r gyllideb refeniw a argymhellir isod yn cynnwys gosod £1m o'r neilltu ar gyfer ychwanegu at yr adnoddau cyfalaf sydd ar gael. Hyd nes y bydd y Cynllun Rheoli Asedau wedi ei gwblhau y bwriad fyddai defnyddio hwn ar sail blynyddol ond unwaith y byddai'r Cynllun tymor canolig gennym y bwriad fyddai ei ddefnyddio ar sail ariannu benthyciad Cod darbodus fyddai'n ein galluogi i roddi chwistrelliad cyfalaf o oddeutu £11m ychwanegol i'r rhaglen gyfalaf.

2.7 Fe allasai fod yn demtasiwn efallai yn wyneb y sefyllfa ariannol bresennol i beidio a chymeryd y fath gamau ond credaf mai cam gwag fyddai peidio a gwneud hynny gan mai'r unig ateb arall yn y pen draw yw gwaredu hyd yn oed mwy o asedau na fydd gofyn ei wneud beth bynnag os am sicrhau fod ein hadeiladau yn addas at eu pwrpas.

2.8 O ran y gyllideb gyfalaf ar gyfer y tair blynedd nesaf fe welir o adroddiad y Pennaeth Polisi a Pherfformiad fod yr anghenion canlynol wedi cael eu hadnabod -

| **(£m)** | **2008/9** | **2009/10** | **2010/11** |
|---|---|---|---|
| Adnoddau ar gael | 11.29 | 13.51 | 11.39 |
| Wedi ei ymrwymo yn barod | 7.90 | 4.68 | - |
| **Ar gael** | 3.39 | 8.83 | 11.39 |
| Bidiau Cyfalaf | 3.38 | 2.74 | 7.95 |
| **Ar ol** | 0.01 | 6.09 | 3.44 |

2.9 Yn ogystal a'r £1m o gyfraniad refeniw (gweler 2.6 uchod) mae'r adnoddau sydd ar gael yn cynnwys tafluniad o'r derbyniadau cyfalaf fydd ar gael.

2.10 Nid yw'r ffigyrau ar gyfer 2009/10 na 2010/11 yn cynnwys unrhyw wariant tu hwnt i'r symiau sydd yn hollol angenrheidiol eu hymrwymo nawr, er mwyn caniatau i ni ddod a'r Cynllun Rheoli

Asedau i derfyn a sicrhau fod ein gwariant cyfalaf yn y dyfodol yn gyson gyda'r weledigaeth tymor canolig a ddaw yn sgil hynny.

2.11 Bwriedir ail ymweld a bidiau 2009/10 a 2010/11 gan ychwanegu cynlluniau atynt yn ystod mis Mai/Mehefin.

## 3 Y SETLIAD TERFYNOL AC INCWM Y CYNGOR

3.1 Dyma bellach yw'r ffigyrau cymharol o ran cynnydd yn y grant i Wynedd o'i gymharu â gweddill Cymru ar gyfer 2008/9:-

| | Cymru **£000** | Gwynedd **£000** |
|---|---|---|
| Grant Llywodraeth 2007/08 | 3,698,553 | 159,150 |
| Eitemau sy'n trosglwyddo i'r setliad | 24,989 | 956 |
| Grant cymharol 2007/08 | 3,723,542 | 160,106 |
| ***Grant Llywodraeth 2008/09*** | 3,814,554 | 163,320 |
| Cynnydd yn y grant | 91,012 | 3,214 |
| Canran cynnydd | 2.4% | 2.0% |

3.2 Mae'r cynnydd yn y grant ar draws Cymru yn cynnwys £4.7m er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gyngor yng Nghymru yn cael setliad llai na 2.0% yn 2008/9. Mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a LLywodraeth leol wedi nodi fodd bynnag mai am flwyddyn yn unig y bydd y cymorth yma ar gael.

3.3 Fel mae'n digwydd bod nid oedd Gwynedd yn elwa o'r cynllun eleni gan fod ein cynnydd grant yn 2% hebddo.

3.4 Atgoffaf aelodau fod Cyngor Gwynedd wedi derbyn y cynnydd isaf yn 2005/6 (3.5% yn erbyn cyfartaledd o 5.1%); y cynnydd trydydd isaf yn 2006/7 (4.5% yn erbyn cyfartaledd o 5.1%) a'r setliad pumed isaf yn 2007/8 (3.7% yn erbyn cyfartaledd o 4.4%).

3.5 Ar gyfer 2008/9 byddwn yn derbyn 2% yn erbyn cyfartaledd o 2.4% - eto yr isaf yng Nghymru (ynghyd ag wyth Cyngor arall y tro hwn).

3.6 Yn unol a'r addewid i lunio setliadau 3 blynedd, eleni, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi nodi mai 1.8% fydd y cynnydd i Wynedd yn 2009/10 (yn erbyn cyfartaledd o 2.5% - y chweched isaf yng Nghymru) a 2.8% yn 2010/11 (yn erbyn cyfartaledd o 3.2% - eto, y cheched isaf yng Nghymru).

3.7 O gymeryd y setliadau am y 6 blynedd rhwng 2005/6 a 2010/11 at ei gilydd byddwn wedi derbyn y setliad nesaf at yr isaf drwy Gymru gyfan, cyfwerth a 20.59% yn erbyn cyfartaledd o 25.49%. I Gyngor Gwynedd, mae hyn cyfwerth a £6.6m. Fe geir y darlun llawn yn Atodiad 1.

3.8 Y rheswm dros y setliadau isel yma wrth gwrs yw'r fformiwla dyrannu adnoddau i awdurdodau lleol a chyfuniad o'r ffaith fod y ffigyrau yn y fformiwla yn mynd yn ein herbyn ac hefyd newidiadau a welwyd i'r fformiwla ei hun.

3.9 Dros y blynyddoedd a fu gwelwyd colledion wrth i'r fformiwla ar gyfer Gwasnaethau Cymdeithasol a Datblygu'r Economi gael eu newid. Drwy ymdrechion y Cyngor yn bennaf, i raddau helaeth fe lwyddwyd i wyrdroi'r newid yn y formiwla Datblygu'r Economi ond 'rydym yn parhau i bwyso am gael cydnabyddiaeth teilwng o fewn agweddau eraill o'r fformiwla i'r ffaith ei fod yn costio mwy i ddarparu uned o wasanaeth mewn ardal wledig – yn enwedig felly o fewn y fformiwla Gwasanaethau Cymdeithasol lle bum yn brwydro ers blynyddoedd bellach.

3.10 Yn wir, wrth i Arweinydd y Cyngor gwrdd gyda Dr Brian Gibbons yn ddiweddar i bwyso am well setliad i awdurdodau lleol dyma oedd y trywydd yr aethpwyd ar ei ol – sef nad yw'r fformiwla bresennol yn adlewyrchu'n deg y gost o ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig. Bydd angen dilyn y mater yma i fyny gyda'r Gymdeithas Llywodraeth Leol a chodi ymwybyddiaeth ar y mater ymysg yr awdurdodau eraill gwledig.

3.11 O ran y Dreth Gyngor, mae'r Dreth ar ei lefel bresennol yn cynhyrchu £41.466m **gyda phob 1% o gynnydd yn cynhyrchu tua £414,660**.

## 4 GWARIANT

4.1 Mae'r Pennaeth Cyllid wedi cyfrifo'r symiau sydd eu hangen ar gyfer sefyll yn ein hunman (hynny yw dim twf yn y gyllideb).

4.2 Nodir yr union ofynion ar gyfer 2008/9 isod.

| | **£'000** | **%** |
|---|---|---|
| Cyllideb sylfaenol 2007/08 | 200,535 | |
| Chwyddiant | | |
| - Tâl | 3,914 | |
| - Prisiau | 1,902 | |
| Pensiynau – Cyfraniadau'r Cyflogwr | 206 | |

| | | |
|---|---|---|
| Incrementau/Trosiant | 454 | |
| Praeseptau | 192 | |
| Cyllideb ar ôl cynnwys chwyddiant | 207,203 | 3.33 |
| **Costau Cyfalaf** | 290 | |
| Llog ar Falansau | (600) | |
| **Llai effaith hanner gostyngiad yn niferoedd plant** | (173) | |
| **Ychwaneger cynnydd yn nifer yr henoed** | 264 | |
| **Amrywiol ddiwygiadau eraill** | 231 | |
| Gwariant sylfaenol 2008/9 | 207,215 | |

4.3 Fe welir o'r uchod fod eitemau chwyddiant yn unig yn golygu cynnydd gwariant o £6.67m ac o gymharu hyn gyda'r cynnydd o £3.2m yn ein grant, gellir gwrthbrofi yn hawdd unrhyw honiad fod y setliad yn un rhesymol.

4.4 Er gwaethaf y ffaith fod y Canghellor wedi nodi ei fod yn bwriadu cadw cyflogau'r sector gyhoeddus o fewn ffin 2% gwyddom eisoes fod athrawon wedi cael cynnig bron i 2.5% ac mae'r undebau wedi cyflwyno cais am 6% ar gyfer gweddill staff y Cyngor. Darparwyd 2.5% ar gyfer y flwyddyn nesaf ond yn amlwg mae yna risg ynghlwm a'r ffigwr yma.

4.5 Mae'r ffigwr ar gyfer cyfraniad pensiwn cyflogwyr yn cynrychioli cynnydd o 20.6% i 20.9% yn dily y prisiad diweddaraf. Ni fydd cynnydd pellach yn 2009/10 na 2010/11.

4.6 Ar adeg paratoi'r gyllideb erys ychydig o risg hefyd ynglyn a chost parhaol yr adolygiad tal a'r effaith a gaiff ar y gyllideb barhaol ond 'rwy'n hyderus fod y ddarpariaeth sydd eisoes o fewn y gyllideb am fod yn ddigonol i gwrdd a'r canlyniad terfynol.

4.7 Fe welir fod y gyllideb yn adlewyrchu tafluniad y bydd llog ar falansau yn uwch y flwyddyn nesaf o £600,000. Mewn gwirionedd, ar sail profiad eleni 'rydym o'r farn y bydd y llog oddeutu £1.1m yn uwch **ond am y flwyddyn nesaf yn unig**. Oherwydd hynny dim ond y £600,000 a gymerwyd i ystyriaeth wrth baratoi'r gyllideb "barhaol" bydd y gweddill (£500,000) yn cael ei ddefnyddio i ariannu gwariant unwaith ac am byth. Mae hyn yn gyson gyda dymuniad y Cyngor yn

y gorffennol i fod yn ddarbodus ac i beidio a chymeryd camau sydd am achosi problemau yn y dyfodol.

4.8 Fe welir mai addasiad o £173,000 sy'n deillio o'r lleihad yn y niferoedd plant a phenderfyniad y Cyngor mai dim ond hanner y gostyngiad y dylid ei weithredu.

4.9 Am y tro cyntaf eleni fodd bynnag, yn ogystal a'r ffaith fod niferoedd plant yn gostwng fe gymerwyd camau i gydnabod y ffaith fod y nifer henoed yn cynyddu ac fe wnaed gwaith i daflunio faint o gleientau ychwanegol y gellid eu disgwyl oherwydd y cynnydd cyffredinol yn y boblogaeth 65+.

4.10 Mae yna fwy o waith i'w wneud i fireinio'r fformiwla y bwriedir ei ddefnyddio ond credir fod angen cydnabod y ffaith yma er mwyn sicrhau fod cyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol yn adlewyrchu'r twf anorfod yr ydym am ei weld.

4.11 Ochr arall y geiniog yma wrth gwrs yw y byddwn wedi cydnabod y twf yn y boblogaeth yn y gyllideb sylfaenol a bydd gan y Cyngor yr hawl i ddisgwyl i'r gwasanaeth wedyn reoli o fewn y gyllideb honno. Mae'n ddealladwy hefyd na fydd hawl gwyro o'r pennawd henoed i benawdau eraill.

4.12 Un pwynt arall sylfaenol i'w nodi yw fod y gyllideb ar hyn o bryd yn cynnwys y "gyllideb wrth gefn" o £1.37m a ffurfiwyd yn 2007/8 er mwyn cwrdd ag eitemau oedd o bosibl am ein taro yn ystod y flwyddyn, ond lle na wnaethpwyd darpariaeth penodol ar eu cyfer yn y gyllideb. Er enghraifft, yr adeg yma y flwyddyn diwethaf 'roeddem yn pryderu y gallasai'r cytundeb cyflog fod yn uwch na'r 2.5% y darparwyd ar ei gyfer yn y gyllideb ac fe fyddai 0.5% pellach wedi ychwanegu dros £660,000 at ein gwariant. Eitem arall y darparwyd ar ei gyfer oedd y pryder nad oedd y bidiau a ganiatawyd ar gyfer Gwasnaethau Cymdeithasol yn mynd i fod yn ddigonol i gwrdd a'u anghenion. Gyda'r eitem gyntaf 'roeddem yn ffodus na aeth y cytundeb cyflog yn uwch na 2.5% ond gyda'r ail, 'rydym wedi gweld yn ystod y flwyddyn fod y gorwariant ym maes plant yn unig tua £1m uwchben y gyllideb, ac felly'n amlwg 'roedd ei angen arnom.

4.13 Mae hyn yn dangos y budd o gael cyllideb wrth gefn y gellir galw arno.

4.14 Ar gyfer 2008/9 mae yna nifer o faterion lle nad oes darpariaeth wedi cael ei wneud yn y gyllideb am nad ydynt yn sicr o ddigwydd neu am

nad oes gennym wybodaeth ddigonol am y gost tebygol.  Nodir rhai o'r eitemau hynny isod -

- Nifer o fidiau Gwasnaethau Cymdeithasol a wrthodwyd gan nad oedd yna unrhyw sicrwydd fod yr angen am godi;
- Pryder na fydd y cynlluniau ar gyfer ymdrin a gwastraff unwaith y bydd Cilgwyn yn cau yn cydgyferbynu yn union gan achosi costau uwch;
- Y perygl na fydd modd cadw cynnydd cyflogau i'r 2.5% a roddwyd yn y gyllideb;
- Gwariant ar faterion Iechyd a Diogelwch lle gofynnwyd am archwiliadau pellach cyn ymrwymo unrhyw wariant
- Pryder na fydd y cynnydd Ynni yn ddigonol gan fod yna bosibilrwydd cryf y bydd y cynnydd yn agosach at 50% yn hytrach na'r 36% a roddwyd yn y gyllideb.

4.15 Pe byddai'r oll o'r uchod yn ein taro ar y lefel y disgwylir yna ni fyddai'r gyllideb wrth gefn yn ddigonol, ond mae yna rywfaint o hyblygrwydd yma.

## 5 BIDIAU

5.1 Ar ben y symiau a nodir yn rhan 4 o'r adroddiad fe welir o adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad ar fidiau fod angen £1,856,460 er mwyn cwrdd a bidiau anorfod parhaol ar gyfer 2008/9. O'r swm yma fodd bynnag, mae £954,920 yn grantiau neu swyddogaethau y mae'r Cynulliad yn ei drosglwyddo i mewn i'r setliad; £316,430 yn golled grantiau llywodraeth ganol sy'n ariannu gwariant na ellir ei ddileu a £76,000 yn wariant ar swyddogaethau newydd, gyda £509,110 yn bwysau ar wasanaethau - yn bennaf ym maes gofal cymdeithasol.

5.2 Mae'r lefel yma yn isel iawn o'i gymharu a blynyddoedd blaenorol.

5.3 Mae'r Cyngor wedi mynegi dyhead ar sawl achlysur na ddyliem adael i 'r ffaith ein bod yn wynebu cyfyngiadau ariannol atal ein dymuniad i fuddsoddi mewn meysydd sydd yn flaenoriaeth lleol. Y Cynllun Tair Blynedd fydd yn manylu ar y dyheadau hynny wrth gwsr ond fe fydd yna oblygiadau capasiti yn codi o hynny ac felly fe ddarparwyd £300,000 hefyd at ddibenion symud y blaenoriaethau lleol yma yn eu blaen.

5.4 Gan ystyried y materion uchod i gyd felly dyma yw'r sefyllfa sy'n wynebu'r Cyngor -

| | £'000 |
|---|---|
| Cyllideb Sylfaenol ar ol chwyddiant (cymal 4.2 uchod) | 207,215 |
| Bidiau anorfod (cymal 5.1 uchod) | 1,856 |
| Ychwanegu at y rhaglen gyfalaf (cymal 2.6 uchod) | 1,000 |
| Blaenoriaethau lleol | 300 |
| **Cyfanswm y gyllideb angenrheidiol** | 210,371 |
| Grant Cynnal Refeniw (gweler 3.1 uchod) | (163,320) |
| Incwm y Dreth Gyngor (heb gynyddu – cymal 3.11 uchod) | (41,466) |
| **Diffyg** | 5,585 |

## 6 *RHAGOLYGON TAIR BLYNEDD 2008/9 – 2010/11*

6.1 Eleni am y tro cyntaf mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi yr hyn y mae'n rhagweld fydd sefyllfa grant y Cyngor am y tair blynedd i ddod.

6.2 Ar ben hynny 'rydym wedi modelu patrymau gwariant ar gyfer y tair blynedd i ddod yn seiliedig ar wahanol dybiaethau ynglyn a chwyddiant, pwysau ar wasanaethau a.y.b.

6.3 Nodir yr amrediad o bosibiliadau yn y tabl isod ynghyd a'r rhagamcan gorau y gellir ei wneud o'r sefyllfa fwyaf tebygol o ran gwariant -

| **(£m)** | **Gorau** | **Tebygol** | **Gwaethaf** |
|---|---|---|---|
| **2009/10** | | | |
| Gwariant | 213.250 | 215.152 | 217.904 |
| Grant Cynnal Refeniw | (166.306) | (166.306) | (166.306) |
| Treth Gyngor @ 4% | (44.781) | (44.781) | (44.781) |
| **Diffyg** | 2.163 | 4.065 | 6.817 |
| | | | |
| **2010/11** | | | |
| Gwariant | 217.953 | 219.893 | 222.487 |
| Grant Cynnal Refeniw | (171.018) | (171.018) | (171.018) |
| Treth Gyngor @ 4% | (46.572) | (46.572) | (46.572) |
| **Diffyg** | 0.363 | 2.303 | 4.897 |

6.4 Fe welir o'r dadansoddiad uchod fod yr hyn a grybwyllwyd y llynedd, sef ei fod yn debygol dros ben y byddwn angen arbedion am y tair blynedd nesaf yn gwireddu ei hun. Yr unig beth na wyddom i unrhyw sicrwydd ar hyn o bryd yw beth fydd maint yr arbedion hynny.

6.5 Fe welir o'r tabl uchod mai ein hamcangyfrif gorau yw fod yna debygolrwydd uwch mai tua £4m o arbedion fyddai eu hangen yn 2009/10 a £2.3m yn 2010/11. Mae hyn yn cymharu gyda'r targed a osodwyd ar hyn o bryd o £4m yn 2009/10 a £4m yn 2010/11.

6.6 O ran dyraniad unrhyw arbedion sydd eu hangen, mae'r Cyngor eisoes wedi mabwysiadu dull o rannu'r "boen" ymysg y gwahanol wasanaethau gan osod targedau gwahaniaethol fesul gwasanaeth.

**7 Gofynion Unwaith ac am byth**

7.1 Fe welir hefyd o adroddiad y Pennaeth Polisi a Pherfformiad fod yna fidiau anorfod unwaith ac am byth cyfwerth â £2.15m wedi cael eu hadnabod.

7.2 O ran y targed arbedion mae rhai gwasanaethau hefyd wedi adnabod syniadau ond wedi cadarnhau nad oes modd eu gweithredu ar 1 Ebrill ac wedi gofyn am gyllid pontio £292,560 yw cyfanswm y cyllid pontio sydd ei angen uwchben y gronfa a sefydliwyd eisoes gan y Bwrdd.

7.3 Mae "pontio arbedion " wrth gwrs yn golygu gwario arian ar fater yr ydym eisoes wedi penderfynu ei ddileu ac i raddau felly mae'n wariant aneffeithiol ac awgrymaf erbyn y ddwy flynedd nesaf fod angen cyflymu'r gyfundrefn ymhellach er mwyn sicrhau fod gweithrediad yn bosibl ar 1 Ebrill.

7.4 Ar ben yr uchod mae yna nifer o syniadau yn y pair ar gyfer arbedion lle mae angen buddsoddiad unwaith ac am byth er mwyn gwireddu'r arbedion hynny. Mae'r ceisiadau sydd mewn llaw yn awgrymu fod angen atgyfnerthu'r Gronfa Buddsoddi i arbed o £750,000.

7.5 Os am gyflawni'r uchod felly bydd angen darparu cyllid refeniw unwaith ac am byth o £3.193m.

7.6 Gellir dygymod a hyn drwy weithredu fel a ganlyn -

- Mae'r Pennaeth Cyllid wedi gwneud arolwg o'r reserfau penodol sydd gennym ac ar sail yr arolwg hwnnw ystyrir y gellir rhyddhau £ 446,000

- Llog ar falansau – bydd £500,000 ar gael ar sail unwaith ac am byth – gweler cymal 4.7 uchod.

- Gwnaed arolwg o lefel ein darpariaeth ar gyfer dyledion drwg, ac mae'r Pennaeth Cyllid yn ystyried yn wyneb ein profiadau yn y gorffennol fod modd lleihau'r ddarpariaeth ac fe olyga hyn fod yna £500,000 ar gael ar sail unwaith ac am byth.

- Grant Cymell Perfformiad – yn y gyllideb sefydlog 'rydym yn defnyddio £1m o'r Grant Cymell Perfformiad a geir yn flynyddol ond gan fod yna ansicrwydd tymor hir ynglyn a dyfodol y grant yma ni ddefnyddiwyd ef i gyd yn y gyllideb barhaol. Gellir defnyddio'r £351,000 na ddefnyddiwyd at ddibenion unwaith ac am byth.

- Mewnoli Cwmni Gwastraff Mon Arfon – yn sgil mewnoli gweithgareddau'r Cwmni uchod rhagwelir y bydd y Cyngor yn etifeddu oddeutu £1.5m o'i reserfau. Bydd angen buddsoddi'n sylweddol ym maes gwastraff yn y dyfodol os ydym am gael ateb tymor hir fydd yn ein galluogi i gwrdd a'r targedau heriol y bydd y Cynulliad yn gosod ar awdurdodau lleol ac a**rgymhellir** felly y dylid gosod £1m o'r adnoddau yma mewn reserf er mwyn medru cwrdd a'r anghenion buddsoddi sy'n debygol o godi gan ddefnyddio'r £0.5m arall at ddibenion unwaith ac am byth y gyllideb.

7.7 Gyda'i gilydd felly rhagwelir fod modd dod a £ 2.297m at ei gilydd er mwyn cwrdd a'r anghenion unwaith ac am byth.

7.8 Bydd angen i'r £896,000 sy'n weddill ddod o falansau

## *8 BALANSAU*

8.1 Fel y nodir uchod bydd angen neilltuo £896,000 ar gyfer gofynion unwaith ac am byth 2008/9.

8.2 Ar adeg paratoi'r adroddiad yma rhagwelir erbyn diwedd 2007/8 y bydd gennym falansau cyffredinol o tua £9m. O ddefnyddio £0.9m fel y nodir uchod bydd hyn yn gadael tua £8.1m.

8.3 Rhaid cofio'r bygythiad sylweddol sydd gennym o hyd fodd bynnag oherwydd yr adolygiad tal – y ffaith y bydd gofyn i ni ystyried gwarchod rhai aelodau staff sy'n colli cyflog yn sgil y gyfundrefn newydd ynghyd a chwrdd a chostau ymdrin ag unrhyw hawl am ol-

dal sy'n destun cynnig ar hyn o bryd. Ta waeth faint o weithlu'r Cyngor fydd yn derbyn y cynnig – mae'n debyg y bydd nifer yn penderfynu mynd a'r mater ymlaen i dribiwnlys a bydd angen darparu ar gyfer y gost o amddiffyn yr achosion hynny ac unrhyw gostau eraill allasai godi o'r herwydd.

8.4 Bydd y balansau yn chwarae rhan allweddol wrth ymdrin a'r materion yma ac ni fyddwn yn argymell unrhyw ddefnydd pellach hyd nes y bydd y sefyllfa yn gliriach.

## 9. YSTYRIAETHAU I'R PWYLLGOR AC OPSIYNAU

9.1 Fe welir o gymal 5.4 uchod fy mod yn nodi fod angen darganfod £5.585m i gau'r bwlch sydd yn y gyllideb.

9.2 Mae gan y Pwyllgor nifer o ddewisiadau ar gyfer cau'r bwlch yma sef -

- Gweithredu toriadau o fewn y gyllideb
- Lleihau'r gofynion gwariant
- Cynyddu'r Dreth Gyngor

9.3 Mae'n debyg mai cyfuniad o'r uchod yw'r ateb delfrydol.

9.4 **Gweithredu toriadau**.

9.4.1 Fe welir o adroddiad y Pennaeth Polisi a Pherfformiad fod y gwasanaethau bron a chyrraedd y targed o £4m a osodwyd ar eu cyfer ar gyfer 2008/9 (er nad yw rhai o'r cynlluniau yn gadarn eto) ac efallai y bydd rhai aelodau yn dymuno gweithredu'r cyfan o'r toriadau yma er mwyn isafu lefel y Dreth Gyngor.

9.4.2 Rhaid cofio'r hyn sy'n cael ei ddatgan yng nghymal 6.4 uchod fodd bynnag sef ei fod yn anorfod y byddwn yn wynebu toriadau eto yn 2009/10 a 2010/11.

9.4.3 Mae yna rai toriadau yn y rhestr a baratowyd gan Pennaeth Polisi a Pherfformiad sy'n mynd i olygu penderfyniadau anodd a rhaid cofio mai'r £4m cyntaf yw rhain – erbyn i ni ddod i'r trydydd set o £4m fe fydd y penderfyniadau yn anoddach fyth. Rhaid cadw hynny mewn cof a gorau oll os gellir cadw elfen o'r rhestr £4m cyntaf yma "yn y banc" ar gyfer yr arbedion fydd eu hangen yn 2009/10 a 2010/11.

9.5 **Lleihau gofynion gwariant**

9.5.1 Mae yna rai elfennau yn y cyfrifiad a nodir yng nghymalau 4 a 5 yr adroddiad sydd yn fwy dewisol nag eraill.

9.5.2 Er enghraifft, tra bod y bidiau anorfod yn rai lle heriwyd yr angen ar fwy nag un achlysur, nod oes rhaid i'r Cyngor eu caniatau – mae modd dweud wrth wasanaethau fod yn rhaid idynt ddygymod gyda'r gofynion y maent yn eu diwallu heb unrhyw adnoddau ychwanegol. Dyma a wneir gan rai cynghorau ond nid wyf yn argymell hynny i'r Cyngor hwn gan mai gwireddu toriadau drwy'r drws cefn y mae hynny mewn gwirionedd gan daro'r gwasanaethau hynny sy'n gorfod cwrdd ag anghenion newydd yn hytrach na'r gwasanaethau hynny sydd yn cael eu penderfynu gan y Cyngor ar sail proses synhwyrol.

9.5.3 Yn yr un modd, fel y nodwyd yng nghymal 2.7, mae'n debyg fod yr ychwanegiad at yr adnoddau cyfalaf yn darged hawdd ond os na chymerir y cyfle nawr y cyfan y bydd y Cyngor yn ei wneud yw gohirio problemau sylweddol tan y dyfodol a'u gwaethygu.

9.5.4 Nid oes rhaid chwaith symud ymlaen gyda blaenoriaethau lleol ond o beidio gwneud hynny, rhaid gofyn y cwestiwn ai bod yn asiant ar gyfer gwireddu arbedion yn unig yw uchelgais y Cyngor.

9.5.5 Un maes lle gellid ystyried lleihau'r gofynion gwario yw'r gyllideb wrth gefn. Fel y nodwyd yng nghymal 4.15 mae yna nifer o faterion allasai daro'r Cyngor yn ystod 2008/9 lle nad oes darpariaeth penodol wedi cael ei wneud ar eu cyfer. Byddai modd i'r Cyngor gymeryd risg uwch gyda'r materion yma a darparu ychydig llai ar eu cyfer.

9.5.6 Mae yna ddadl dros wneud hyn efallai o gofio fod y balansau ar gael os cyfyd sefyllfa gwaeth na'r hyn a gynlluniwyd amdano ond gan gofio mai ateb tymor byr am flwyddyn fyddai hynny. Yn yr ail flwyddyn byddai'n rhaid ychwanegu'r gwariant at y gyllideb sefydlog, a thrwy hynny, cynyddu'r arbedion angenrheidiol.

## 9.6 Cynyddu'r Dreth Gyngor

9.6.1 Byddai cwrdd a'r cyfan o'r £5.585m o'r Dreth Gyngor yn golygu cynnydd o tua 13.5%.

9.6.2 Er gwaethaf y setliad isel, mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a LLywodraeth Leol wedi nodi eisoes nad yw'n disgwyl i awdurdodau lleol gynyddu'r Dreth Gyngor uwchben 5% yn 2008/9.

9.6.3 O'r wybodaeth anffurfiol sydd gennym, ymddengys fod yr amrediad am fod yn eithaf eang ar draws Cymru eleni o rhwng 3% a 5% gydag un neu ddau yn mynd yn llai na 3% hyd yn oed. Rhoddaf fwy o fanylion ar lafar.

9.6.4 Y broblem gyda'r Dreth Gyngor wrth gwrs yw nad oes modd adfer cynnydd isel drwy gynyddu mwy mewn blyyddoedd i ddod gan fod LLywodraeth y Cynulliad yn dueddol o gyfyngu'r cynnydd i uchafswm o 5% yn rheolaidd.

9.6.5 Yn ei gyfarfod cyn y Nadolig gofynnwyd i ni daflunio strategaeth fyddai'n cyfyngu'r cynnydd yn y Dreth Gyngor i rhwng 3% a 7%.

9.6.7 O gymeryd y briff yma, nodir isod faint y byddai angen lleihau gwariant o benderfynu ar Dreth Gyngor o wahanol faint o fewn yr amrediad hwnw.

| Cynnydd yn y Dreth Gyngor | Lleihau gwariant £'000 |
|---|---|
| 3% | 4,341 |
| 4% | 3,926 |
| 5% | 3,512 |
| 6% | 3,097 |
| 7% | 2,682 |

10 **Argymhellion**

10.1 Gan y byddai cynyddu uwchben y lefel 5% yn herio LLywodraeth y Cynulliad – her na fyddem yn debygol o ennill – ni ystyrir cynyddu uwchben y lefel hwnnw.

10.2 Fe welir felly fod Treth Gyngor o rhwng 3% a 5% yn golygu y byddai'n rhaid lleihau gwariant o rhwng £3.5m a £4.3m.

10.3 Yn y cyfarfod o'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr 'roedd nifer o aelodau yn pwyso am gynnydd isel yn y Dreth Gyngor. O ddefnyddio'r oll o'r £4m arbedion y mae gwasanaethau wedi bod yn ceisio eu darganfod byddai hynny yn golygu Treth Gyngor o 3.8%. Byddai cynnydd llai na hynny yn golygu fod angen arbedion uwch na'r £4m y bum yn cynllunio ar ei gyfer.

10.4 Byddai hyn yn golygu defnyddio'r oll o'r £4m arbedion fodd bynnag fyddai'n golygu penderfyniadau anodd dros ben i'r aelodau pan fyddem yn dod i drydydd blwyddyn yr arbedion.

10.5 Byddai defnyddio llai o arbedion (er mwyn eu cadw ar gyfer yr ail a'r trydydd flwyddyn) yn golygu y byddai angen cynyddu'r Dreth Gyngor uwchben 4%. Er enghraifft, gweler y dewisiadau isod -

| Treth Gyngor | Arbedion £'000 |
|---|---|
| 4.0% | 3,926 |
| 4.2% | 3,844 |

| | |
|---|---|
| 4.4% | 3,761 |
| 4.6% | 3,678 |
| 4.8% | 3,595 |

10.6 Fel y nodwyd yng nghymal 9.4.3uchod, byddai cadw lefel yr arbedion mor isel a phosibl yn gwarchod gwasanaethau i'r dyfodol (wrth edrych am arbedion 2009/10 a 2010/11), ond o dderbyn fod cael Treth Gyngor mor isel a phosibl hefyd yn ddymunol, efallai fod modd edrych ar wariant yn ffurf y gyllideb wrth gefn.

10.7 Fel y nodwyd yng nghymal 9.5.5 efallai fod modd edrych ar y gyllideb yma gan gymeryd mwy o risg gyda'r materion allasai godi yn ystod y flwyddyn a chymeryd siawns na fydd popeth yr ydym angen darparu ar ei gyfer am ein taro.

10.8 Wedi trafod gyda'r Pennnaeth Cyllid, mae'n gyfforddus y byddai modd gostwng lefel y gyllideb wrth gefn o £1.3m i £800,000. O dderbyn y byddai hyn yn cynyddu'r risg rhywfaint i'r Cyngor byddai serch hynny yn galluogi'r Cyngor i gadw lefel y Dreth Gyngor i lawr i 3.8% (sef y lefel fyddai ar gael beth bynnag o ddefnyddio'r oll o'r £4m arbedion) ond gan ddefnyddio dim ond £3.514m o'r arbedion eleni fyddai'n cynyddu'r hyblygrwydd ar gyfer y dyfodol.

10.9 Yr ateb delfrydol os yw'r Cyngor yn dymuno gwarchod gwasanaethau hyd eithaf ei allu yw cynyddu'r Dreth Gyngor hyd at 5% a lleihau lefel y toriadau angenrheidiol i £3.5m

10.10 Dewis arall fyddai cymeryd mwy o risg gyda'r gyllideb wrth gefn gan ei ostwng i £800,000, parhau i gadw'r lefel arbedion i £3.514m a lleihau'r Dreth Gyngor i 3.8%.

10.11 Awgrymaf felly mai dyma yw'r ddau prif ddewis sydd gan y pwyllgor.